Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)

Mehefin 2025

# 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 22 Ionawr 2025. Fe'i noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**2.** Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil, nodir fel a ganlyn:

> *"The Public Authorities (Fraud, Error and Recovery) Bill ("the Bill") is intended to safeguard public money and protect the economic well-being of the country by reducing public sector fraud, error and debt. The Bill makes provisions to better identify, prevent and deter public sector fraud and error and enable the better recovery of money (debt) owed to the taxpayer where public money has been stolen or overpaid.*
>
> *The Bill introduces new powers to enable the Cabinet Office to investigate public sector fraud outside of tax and social security, using its expertise to act on behalf of other parts of government. The Bill also introduces new powers to improve the Department for Work and Pensions' ("DWP") ability to address fraud and error in the social security system.*
>
> *The Bill includes safeguards, reporting mechanisms and oversight provisions to ensure the appropriate, proportionate, and effective use of the powers. The Bill also makes provision for the oversight of investigations conducted by both the Cabinet Office and DWP to ensure these are carried out in line with guidance and any relevant codes of practice."*[2]

**3.** Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben:

> *"… make provision about the prevention of fraud against public authorities and the making of erroneous payments by public authorities; about the recovery of money paid by public authorities as a result of fraud or error; and for connected purposes."*[3]

[1] Y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), fel y'i cyflwynwyd
[2] Nodiadau Esboniadol y Bil, fel y'i cyflwynwyd
[3] Y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1

**4.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 29 Ebrill 2025, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 30 Ebrill 2025. Dechreuodd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Mehefin 2025.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid cael memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru mewn perthynas â materion datganoledig.

**6.** Ar 7 Chwefror 2025, gosododd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil (y Memorandwm)[4] gerbron y Senedd.

**7.** Ar 6 Mawrth 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[5]

**8.** Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 ar 1 Mai 2025 (ein hadroddiad cyntaf).[6]

**9.** Roedd paragraffau 11 i 14 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'r darpariaethau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**10.** Mae paragraffau 15 i 18 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm.

**11.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys dau gasgliad a dau argymhelliad.

---

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Chwefror 2025
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Mawrth 2025
[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Mai 2025

**12.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hadroddiad cyntaf ar 11 Mehefin 2025.[7]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

**13.** Ar 7 Mai 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r Bil.[8]

**14.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 20 Mehefin 2025.[9]

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**15.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 23 Ebrill 2025 yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

**16.** Ym mharagraff 11 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi manylion y gwelliannau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2. Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet fod angen cydsyniad ar gyfer:

- Gov 72 (sy'n newid Atodlen 1 i'r Bil er mwyn galluogi Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) i drosglwyddo'r dystiolaeth y mae'n ei chael o dan warant Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ('PACE') i sefydliadau eraill) gan fod y "posibilrwydd o drosglwyddiad o'r fath yn newid effaith bosibl cais gan awdurdod Cymreig datganoledig i'r Gweinidog/PSFA ddefnyddio eu pwerau ymchwilio o dan gymal 1. Felly, mae'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd ei fod yn newid cwmpas ac effaith pŵer awdurdod Cymreig datganoledig i wneud cais o'r fath".

- Gov 45 (sy'n newid Atodlen 1 i'r Bil er mwyn galluogi'r Gweinidog neu PSFA i gael deunydd a ddiffinnir fel 'wedi'i eithrio' ('*excluded*') gan adran

[7] Ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Mehefin 2025
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Mai 2025
[9] Pwyllgor Busnes: Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Mai 2025

11 o PACE) gan ei fod yn "gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd ei fod yn newid cwmpas ac effaith pŵer awdurdod Cymreig datganoledig i wneud cais o dan gymal 2 o'r Bil".

- Gov 76 a Gov 75 (sy'n ehangu'r diffiniad o 'twyll' ('*fraud*') yng nghymal 70 i gynnwys troseddau o dan adrannau 6 a 7 o Ddeddf Twyll 2006 ac sy'n gwneud darpariaeth benodol ynglŷn â dehongli'r rhannau newydd o'r diffiniad) gan fod "ehangu ystyr 'twyll' ('*fraud*') yn ei dro yn ehangu'r amgylchiadau lle y gallai awdurdod Cymreig datganoledig wneud cais o dan gymal 2 bod y swyddogaethau craidd o dan gymal 1 yn cael eu harfer" a thrwy "ddiwygio'r diffiniad o 'twyll' ('*fraud*'), mae'n newid cwmpas un o swyddogaethau awdurdodau Cymreig datganoledig".

- Gov 79, Gov 78, Gov 77, Gov 74 a Gov 73 (sy'n estyn y cyfnod cyfyngu ar gyfer awdurdodau Cymreig datganoledig i ddwyn hawliad cyfreithiol mewn perthynas â thwyll sy'n gysylltiedig â covid i 12 mlynedd drwy ehangu cwmpas cymal 99) gan eu bod yn newid cwmpas swyddogaeth awdurdodau Cymreig datganoledig i ddwyn achos cyfreithiol.

**17.** Nid yw Memorandwm Rhif 3 yn cynnwys gwybodaeth am safbwynt Llywodraeth y DU o ran pa welliannau a gyflwynwyd ar 23 Ebrill 2025 y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**18.** Ym mharagraff 12 o Femorandwm Rhif 3, daw'r Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

> *"Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar ddiogelu arian cyhoeddus rhag twyll a gwallau. Felly, rwy'n argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."*

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**19.** Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 2 Mehefin 2025.[10]

**20.** Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 9 Mehefin 2025.[11] Daeth ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hadroddiad cyntaf i law cyn gosod ein hadroddiad. Felly, gwnaethom drafod ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet yn ein

[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Mehefin 2025
[11] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Mehefin 2025

cyfarfod ar 16 Mehefin 2025, ac wedi hynny gwnaethom gytuno ar fersiwn ddiwygiedig o'n hadroddiad.[12]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**21.** Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch y gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 3.

**22.** Yn ein hadroddiad cyntaf gwnaethom nodi[13] sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch cymal 99 yn y Bil, a'i bod o'r farn "nad yw'r cymalau cymhwyso yn bodloni'r Prawf RhS29 yn gyffredinol am nad oes ganddynt unrhyw effaith gyfreithiol ar wahân i'r darpariaethau y maent yn ymwneud â hwy."[14]

**23.** Mae'n ymddangos bod yr Ysgrifennydd Cabinet bellach yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 99 fel y'i diwygiwyd, er nad yw hyn wedi'i nodi'n benodol ym Memorandwm Rhif 3. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod y pum gwelliant i gymal 99 (Gov 73, 74, 77 i 79) "yn gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd eu bod yn newid cwmpas swyddogaeth awdurdodau Cymreig datganoledig i ddwyn achos cyfreithiol".[15]

**24.** Nodwn ymhellach nad ydym yn gwybod beth yw safbwynt Llywodraeth y DU o ran y gwelliannau y mae Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â hwy.

**Casgliad 1.** Rydym yn parhau i gytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3, o'r darpariaethau (a diwygiadau i'r darpariaethau hynny) yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 29, ond mae hyn yn ddarostyngedig i'n safbwyntiau a nodir yng nghasgliad 2.

**25.** Gwnaethom amlygu yn ein hadroddiad cyntaf ei bod yn ymddangos y gallai'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ddefnyddio unrhyw un o'r pwerau yn Rhan 1 o'r

[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mehefin 2025
[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), paragraff 29
[14] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 28 Mawrth 2025
[15] Memorandwm Rhif 3, paragraff 11

Bil ar ran Awdurdod Cymreig Datganoledig.[16] Felly, gwnaethom ddod i'r casgliad fod pob cymal yn Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.[17]

**26.** Nodwn, yn ychwanegol at y gwelliannau a restrir ym Memorandwm Rhif 3, y cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau eraill i Ran 1 o'r Bil ar gyfer Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gov 23 a Gov 24, sy'n diwygio cymal 3 fel y gall Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, drwy hysbysiad gwybodaeth, ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu deunydd gweithdrefn arbennig o dan PACE, ond nid deunydd newyddiadurol neu ddeunydd sydd wedi'i eithrio.
- Gov 25 a Gov 26, sy'n diwygio cymal 9 (sydd ei hun yn diwygio Rhan 2 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*) i ymestyn swyddogaethau Cyfarwyddwr Cyffredinol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i gynnwys goruchwylio ymchwilwyr twyll y sector cyhoeddus.
- Gov 27, Gov 28 a Gov 29, sy'n diwygio cymal 22 a darpariaeth sy'n ymwneud â swm y didyniadau o gyfrif banc o dan orchymyn didynnu uniongyrchol.
- Gov 30 a Gov 31, sy'n diwygio cymal 67 i ddarparu nad yw is-adran (5) (sy'n ymwneud â diogelu deunydd sy'n ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol) yn gymwys mewn perthynas â darpariaethau PACE fel y'u cymhwysir gan adran 7 ac i ddileu is-adran (6) (sy'n darparu na ellir ei gwneud yn ofynnol i berson o dan ddarpariaeth yn Rhan 1 o'r Bil roi gwybodaeth sy'n tueddu i argyhuddo eu hunain neu eu partner).

**Casgliad 2.** Rydym yn parhau i fod o'r farn bod pob cymal yn Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig (i'r graddau y gallai Gweinidog Swyddfa'r Cabinet arfer y pwerau a'r swyddogaethau yn Rhan 1 ar ran Awdurdod Cymreig Datganoledig). Felly, dylid cael cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer gwelliannau Gov 23 i 31 sy'n diwygio cymalau 3, 9, 22 a 67 o'r Bil.

**27.** Roedd argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu eglurder a rhesymeg fanwl ynghylch pam nad yw Llywodraeth

[16] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), paragraff 26
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), casgliad 2

Cymru o'r farn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 o'r Bil yn ei chyfanrwydd. Gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 4 Mehefin 2025 i ofyn am y wybodaeth hon fel mater o frys.[18]

**28.** Rydym yn cydnabod ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet a anfonwyd atom ar 11 Mehefin, lle nododd:

> *"7. Mae pwnc Rhan 1 o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl drwy weithrediad paragraff 39 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("atal, canfod ac ymchwilio i droseddau"). O ganlyniad, mae Rhan 1 o'r Bil, i raddau helaeth, y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.*
>
> *8. Fodd bynnag, mae rhai darpariaethau yr ystyrir eu bod yn effeithio ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig, gan gynnwys, yn achos rhai cymalau, ar roi swyddogaethau i'r Awdurdodau hyn. Ystyrir bod y cymalau penodol hyn yn bodloni'r prawf a nodir yn Rheol Sefydlog (RhS) 29 o Reolau Sefydlog y Senedd ('Prawf RhS29') ac, felly, ystyrir bod angen Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer. Nid yw hyn yn wir am y rhan fwyaf o'r cymalau yn Rhan 1 o'r Bil.*
>
> *9. Er bod Rhan 1 o'r Bil yn dwyn y teitl "Functions exercisable on behalf of public authorities" ("Swyddogaethau sy'n arferadwy ar ran awdurdodau cyhoeddus"), mae natur bron pob un o'r swyddogaethau hyn yn golygu eu bod yn swyddogaethau'r Gweinidog/Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn y bôn ac y byddant yn cael eu harfer fel y gwelant yn dda, heb gyfeirio at yr awdurdod cyhoeddus sy'n atgyfeirio, gan gynnwys Awdurdodau Cymreig Datganoledig (nad oes ganddynt y swyddogaethau hyn eu hunain). Am y rheswm hwn, nid yw'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau yn Rhan 1 (gan gynnwys cymal 3) yn effeithio'n sylweddol ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Pan fo darpariaeth o'r Bil yn rhoi swyddogaeth benodol i awdurdodau cyhoeddus (e.e. cymal 5), gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â hi.*
>
> *10. Nid yw cymal 7 (ynghyd ag Atodlen 1) yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau cyhoeddus/Awdurdodau*

[18] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 4 Mehefin 2025

> *Cymreig Datganoledig. Fodd bynnag, mae'n galluogi'r Gweinidog/Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus i ddefnyddio pwerau ymwthiol chwilio ac atafaelu yn ystod ymchwiliad i dwyll a gyflawnir yn erbyn awdurdod cyhoeddus. Gall ymchwiliadau o'r fath gynnwys defnyddio pwerau gorfodaethol yn erbyn unigolion a busnesau yng Nghymru i adennill arian ar gyfer Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Felly, gallai defnyddio'r pwerau hyn effeithio'n sylweddol ar enw da Awdurdodau Cymreig Datganoledig a'u perthynas â'r unigolion yng Nghymru y maent yn eu gwasanaethu. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd mewn cysylltiad â chymal 6 (sy'n galluogi dod o hyd i ddata cyfathrebu) am resymau tebyg."*[19]

**29.** Fodd bynnag, nid yw'r ymateb yn darparu gwybodaeth sy'n gwneud i ni newid ein barn bod pob cymal yn Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig (i'r graddau y gallai Gweinidog Swyddfa'r Cabinet arfer y pwerau a'r swyddogaethau yn Rhan 1 ar ran Awdurdod Cymreig Datganoledig) ac, o'r herwydd, y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 yn ei chyfanrwydd.

**30.** At hynny, rydym yn siomedig o orfod nodi eto nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ateb ein cais uniongyrchol i esbonio pam y ceisir cydsyniad ar gyfer cymal 7 ond nid ar gyfer cymal 3, o ystyried bod y ddau yn caniatáu i Weinidog Swyddfa'r Cabinet ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth at yr un dibenion, sef ymchwilio i amheuon o dwyll yn erbyn awdurdod cyhoeddus.

## Pwerau dirprwyedig

**31.** Roedd argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet egluro a ofynnodd Llywodraeth Cymru am bwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r pwerau a ddirprwyir i Weinidog Swyddfa'r Cabinet i weithredu mewn meysydd datganoledig ac y gellid eu harfer yn gydredol â Llywodraeth y DU.

[19] Ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)

**32.** Nodwn gadarnhad yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd hi'n gofyn am bwerau o'r fath yn y Bil.[20] Rydym hefyd yn nodi sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch yr hyn a ganlyn:

- nid yw'r angen am y pwerau hyn yng Nghymru yn cyfateb i'r angen yn Lloegr;
- mae'r risg o dwyll a wynebir gan Lywodraeth y DU yn sylweddol ac yn gymesur uwch na'r risg i Lywodraeth Cymru;
- mae cynnwys mynediad at Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus i Awdurdodau Cymreig Datganoledig o fewn darpariaethau'r Bil yn cynnig opsiwn digonol, effeithiol, cost-effeithlon a chymesur;
- gall y gallu i ddadansoddi a gwerthuso setiau data mawr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig gyfan fod yn werthfawr, yn enwedig gan nad yw twyllwyr yn parchu ffiniau gweinyddol;
- mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn arwain ar broffesiynoli gwasanaethau gwrth-dwyll o fewn Gwasanaeth Sifil y DU a bydd yr arweinyddiaeth hon hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau ymchwilio cyson o ansawdd uchel ar gael yn rhad ac am ddim at ddefnydd Llywodraeth Cymru.[21]

[20] Ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)
[21] Ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)